15 Ionawr 2015

# Adroddiad er budd y cyhoedd

# Archwiliadau o gyfrifon 2011-12, 2012-13 a 2013-14

# Cyngor Cymuned Mawr

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rwyf wedi cyhoeddi’r adroddiad hwn i dynnu sylw’r cyhoedd at fethiant yn y trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheoli ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Mawr. Ni dderbynnir cyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw berson arall yn unigol nac unrhyw drydydd parti.

**Anthony Barrett**
**Archwilydd Penodedig**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys


Cyflwyniad 6

Diffyg dealltwriaeth cynghorwyr unigol o'u rôl a'u cyfrifoldebau a diffyg sylw i lywodraethu priodol sydd wrth wraidd anawsterau'r Cyngor 9

Mae diffygion yng nghofnodion y Cyngor yn ei gwneud hi'n anodd gwybod pa benderfyniadau a wnaed a pha wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi penderfyniadau 13

Methodd y Cyngor gydymffurfio â gofynion statudol i ystyried yr adroddiad a gyflwynais er budd y cyhoedd ym mis Rhagfyr 2011 14

Methodd y Cyngor gydymffurfio â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2012-13 a 2013-14 gan bennu cyllideb anghyfreithlon ar gyfer y blynyddoedd hynny yn fy marn i 16

Roedd penderfyniad y Cyngor i dynnu'r cais cynllunio yn ôl ar gyfer tir yng Nghraig Cefn Parc yn anghyfreithlon 18

Mae'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth yn amhriodol ac mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn prosiectau lle nad yw'n deall yn llawn beth yw ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â hwy 20

Mae'r gwariant ar brosiect llwybr troed y coetir yn anghyfreithlon gan fod aelodau unigol, cyn Glerc y Cyngor a Swyddog Datblygu'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu heb awdurdod y Cyngor 24

Mae'r Cyngor wedi cael benthyciad gan yr Ymddiriedolaeth heb gael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ac nid yw wedi ad-dalu cyfran sylweddol o'r benthyciad eto 28

Argymhellion 29

Camau a gymerwyd eisoes gan y Cyngor 30

Camau nesaf 31

## Atodiadau


Atodiad 1 – Saith egwyddor bywyd cyhoeddus (‘egwyddorion Nolan’) 33

Atodiad 2 – Argymhellion fy adroddiad yn 2011 34

Atodiad 3 – Crynodeb o gofnodion ynghylch Llwybr Coetir Ysgol Felindre 36

# Cyflwyniad

1 Mae Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried, er budd y cyhoedd, a ddylwn baratoi adroddiad ar unrhyw bwnc a ddaw i'm sylw wrth archwilio Cyngor Cymuned Mawr (y Cyngor) er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor neu ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.

2 Mae'r safonau a ddisgwylir gan y rhai hynny mewn swyddi cyhoeddus yn uchel. Mae'n hanfodol bod yr unigolion hyn yn ymddwyn yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus - sef 'Egwyddorion Nolan' (gweler Atodiad 1). Yn ogystal ag ymddwyn yn unol â'r egwyddorion hyn, rhaid i swyddogion cyhoeddus gael eu gweld yn gwneud hynny er mwyn cynnal hyder y cyhoedd. Yn ystod fy archwiliad, gwelais enghreifftiau penodol lle rwyf o'r farn i swyddogion ac aelodau ymddwyn mewn ffordd sy'n debygol o danseilio hyder y cyhoedd yng ngweithrediad y Cyngor.

3 Ym mis Rhagfyr 2011, cyhoeddais adroddiad er budd y cyhoedd ar y Cyngor yn nodi methiannau yn y trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheoli ariannol a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod y cyfnod 2004-05 i 2009-10. Yn yr adroddiad hwnnw, deuthum i'r casgliad canlynol:

- a methodd y (cyn) Clerc â chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli'r Cyngor yn ariannol;
- b methodd y Cyngor â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith i atal arian cyhoeddus rhag cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol neu wastraffus;
- c roedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i adennill TAW ar danwydd ar gyfer neuaddau lles Felindre, Craig-cefn-parc a Garn-swllt nad ydynt o bosibl yn unol â rheolau Cyllid a Thollau EM; ac
- ch o ganlyniad i drefniadau llywodraethu a gweinyddu gwael yn y Cyngor, mae'r Cyngor wedi mynd i wariant diangen gwerth cyfanswm o £10,500 y gellid bod wedi'i osgoi.

4 Ers cyhoeddi fy adroddiad diwethaf, tynnwyd fy sylw at faterion eraill yn gysylltiedig â nifer o brosiectau y mae'r Cyngor wedi cyfrannu atynt gydag Ymddiriedolaeth Datblygu Mawr (yr Ymddiriedolaeth). Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth yn wreiddiol, gyda chefnogaeth y Cyngor, fel cyfrwng ar gyfer gwella cyfleusterau yn ardal Mawr. Tynnwyd fy sylw at y materion canlynol:

- a creu llwybr coetir yn Felindre;
- b datblygiad arfaethedig neu werthu tir yng Nghraig Cefn Parc; a
- c gwaith adnewyddu yn Neuadd Les Craig-cefn-parc.

5 Mae'r materion y tynnwyd fy sylw atynt yn destun pryder fel a ganlyn:

a nid yw'r Cyngor wedi dysgu'r gwersi a nodais yn fy adroddiad ym mis Rhagfyr 2011;

b mae'r Cyngor yn dal i fethu cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol; ac

c mae'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth yn amhriodol ac mae aelodau unigol y cyngor yn methu gwahanu eu cyfrifoldebau fel cynghorwyr oddi wrth eu buddiannau yng ngweithgareddau'r Ymddiriedolaeth.

6 Mae'n anarferol i archwilydd penodedig gyhoeddi dau adroddiad er budd y cyhoedd ynghylch corff bach fel y Cyngor. Mae'n fwy anarferol fyth cyhoeddi adroddiadau o'r fath o fewn cyfnod mor fyr.

7 Fodd bynnag, yn fy marn i, mae'n bwysig tynnu sylw'r cyhoedd at y ffordd ddiffygiol y mae'r Cyngor wedi gweithredu. Mae hyn wedi arwain at fethiannau parhaus yn y trefniadau llywodraethu a'r diffygion o ran rheoli ariannol a rheolaeth fewnol. Mae'r adroddiad hwn yn trafod amrywiaeth o faterion gwahanol ond maent i gyd yn rhoi darlun o gyngor sy'n methu pobl ardal Cyngor Cymuned Mawr.

8 Mae'r ddogfen yn nodi'r materion mwyaf arwyddocaol y bûm yn eu hystyried fel rhan o fy archwiliad. Yn ystod fy archwiliad, tynnwyd fy sylw at lawer o faterion. Mewn llawer o achosion, nid oedd y materion hyn yn perthyn i fy nghylch gwaith i fel archwilydd penodedig. Mewn achosion eraill, nid oedd y materion a nodwyd yn ddigon arwyddocaol i warantu cael eu cynnwys.

9 Mae'n rhaid deall y casgliadau a nodais yn yr adroddiad hwn yn y cyd-destun canlynol:

a Nid yw fy ngwaith archwilio wedi archwilio holl drafodion y Cyngor. Fodd bynnag, wrth ystyried y trefniadau ariannol ar gyfer llwybr troed coetir Felindre a'r gwaith adnewyddu yng Nghraig Cefn Parc, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddefnydd o arian y cyngor neu grantiau.

b Roedd pob unigolyn y cyfathrebodd fy nhîm archwilio ag ef yn ymddangos fel pe bai'n gweithredu yn unol â'r hyn a gredai oedd orau i'r gymuned.

c Er gwaethaf hyn, mae'r Cyngor wedi methu'n gyson i weithredu'n gyfrifol fel corff corfforaethol.

10 Yn fy marn i, er mwyn i'r darllenydd ddeall cyd-destun y ddogfen hon, mae angen enwi unigolion yn yr adroddiad hwn sydd wedi bod yn rhan o'r gweithgareddau rwyf yn adrodd amdanynt. Yr unigolion hyn yw:

| Enw | Swydd | Cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel: |
|---|---|---|
| Dorian Williams | Cynghorydd Cymuned Mawr | Cyng Williams |
| Ioan Richard | Cyn Gynghorydd Cymuned Mawr (ymddiswyddo 2013) | Cyng Richard |
| Robert King | Cyn Glerc Cyngor Cymuned Mawr (ymddiswyddo Hydref 2012) | y cyn Glerc |
| Linda Frame | Cynghorydd a Chadeirydd/Is-Gadeirydd Cyngor Cymuned Mawr | Cyng Frame, y Cadeirydd |
| Christine Strong | Cyn Gynghorydd Cymuned Mawr (ymddiswyddo 2013) | Cyng Strong, y cyn Gadeirydd |
| Philip Owen | Swyddog Datblygu Ymddiriedolaeth Datblygu Mawr | Mr Owen/Swyddog Datblygu'r Ymddiriedolaeth |
| Helen Jones | Cynghorydd Cymuned Mawr | Cyng H Jones |
| Alan Davies | Cynghorydd Cymuned Mawr | Cyng A Davies |
| Geoffrey Clifford | Cynghorydd Cymuned Mawr | Cyng Clifford |
| Mark Harris | Cynghorydd Cymuned Mawr | Cyng Harris |

11 Rhoddais gyfle i'r unigolion hyn roi sylwadau ar fy nghanfyddiadau. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r ymatebion a dderbyniais gan yr unigolion hyn a chan y Cyngor ei hun.

12 Wrth lunio fy nghasgliadau, clywais am broblemau pellach gyda'r estyniad arfaethedig i Neuadd Les Felindre. Yn yr achos hwn, roedd y prosiect yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth a Phwyllgor Rheoli Neuadd Les Felindre yn sicrhau arian grant ar gyfer estyniad i'r Neuadd Les. Mae'r Cyngor yn gosod y neuadd ar brydles i'r Pwyllgor Rheoli ac o dan delerau'r brydles mae'n rhaid i'r Cyngor rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw waith strwythurol a gynigir gan y Pwyllgor Rheoli. Mae'r wybodaeth a'r dystiolaeth a dderbyniais yn dangos bod y prosiect hwn wedi wynebu anawsterau tebyg i brosiectau a nodwyd yn gynharach. Felly, nid wyf wedi cynnwys manylion y materion hyn yn yr adroddiad hwn.

## Diffyg dealltwriaeth cynghorwyr unigol o'u rôl a'u cyfrifoldebau a diffyg sylw i lywodraethu priodol sydd wrth wraidd anawsterau'r Cyngor

13 Yn ystod fy archwiliad nodais achosion lle mae cynghorwyr unigol wedi dangos diffyg dealltwriaeth o'u rolau, eu cyfrifoldebau a'u hawdurdod yn y Cyngor. Mae'r diffyg dealltwriaeth hwn wedi arwain at gymylu cyfrifoldebau unigolion i'r Cyngor ac at ddiffyg sylw i brosesau penderfynu a llywodraethu priodol y Cyngor. Mae'r methiannau hyn wrth wraidd y problemau mae'r Cyngor wedi'u hwynebu am nifer o flynyddoedd ac wedi arwain at y Cyngor yn gwneud penderfyniadau anghyfreithlon.

14 Mae'r adran hon yn y ddogfen yn trafod agweddau rhai o aelodau'r Cyngor ac yn helpu i osod rhai o'r materion y byddaf yn adrodd arnynt yn ddiweddarach yn eu cyd-destun.

### Nid yw aelodau unigol yn deall eu rôl

15 Mae rôl y cynghorydd cymuned yn bwysig ac mae'n rhaid i bawb sy'n sefyll mewn etholiad neu'n derbyn penodiad i fod yn gynghorydd sicrhau eu bod yn deall yn llawn beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae'n rhaid iddynt ddeall mai eu dyletswydd ar y Cyngor yw mynd i'r afael â materion lleol a bod rhaid iddynt gynrychioli pobl leol yn gyfartal. Yn ystod fy archwiliad, daeth i'r amlwg nad yw cynghorwyr yn llwyr ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau o fewn y cyngor cymuned mewn rhai achosion.

16 Er enghraifft, mewn e-bost dyddiedig 12 Gorffennaf 2013, dywedodd y Cyng Richard ei fod, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi dehongli ei rôl ar Gyngor Cymuned Mawr fel cyswllt mewnol i'r Cyngor Sir gan roi sylw i faterion a gyflwynir gan Gynghorwyr Cymuned sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.

17 Mae'n syndod clywed aelod profiadol sydd wedi gwasanaethau ers oddeutu 35 mlynedd yn gwneud datganiad o'r fath. Fel aelodau o'r Cyngor, mae gan bob cynghorydd cymuned gyfrifoldeb i gyflawni eu cyfrifoldebau llawn fel cynghorwyr cymunedol ac ni ddylent geisio diffinio neu ddehongli eu rôl fel y maent hwy yn gweld yn addas. Gall dehongliad unigolion o'u rolau eu hunain yn y Cyngor, heb gydnabod eu cyfrifoldebau corfforaethol, arwain at gynghorwyr yn gweithredu yn erbyn dymuniadau, buddiannau a phenderfyniadau'r Cyngor fel corff corfforaethol.

18 Wrth ymateb, dywedodd y Cyng Richard ei fod yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif bob amser, gan ymdrin â phob agwedd ar y swydd. Mae'n credu ei fod wedi mynegi ei hun yn wael yn ei e-bost blaenorol.

19 Rwyf wedi nodi nifer o achosion hefyd lle roedd aelodau unigol wedi gweithredu yn groes i benderfyniadau'r Cyngor yn gyffredinol. Mae'n egwyddor bwysig, unwaith mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad, bod pob cynghorydd yn cymryd cyfrifoldeb am y penderfyniad hwnnw fel corff corfforaethol waeth a yw cynghorydd unigol wedi pleidleisio o blaid neu'n erbyn y cynnig ai peidio.

20 Mae'r Cyngor wedi fy hysbysu ei fod wedi cymryd camau i sicrhau bod pob aelod yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

a nodi a darparu hyfforddiant perthnasol i'r aelodau a'r Clec cyfredol; a

b darparu 'pecyn cychwyn' i'r holl aelodau i gynnwys y Cod Ymddygiad; 'Canllaw y Cynghorydd Da' a chopi o reolau sefydlog y Cyngor.

## Methodd aelodau unigol ddatgan buddiant mewn cynigion a gynigiwyd a phenderfyniadau a wnaed gan y Cyngor

21 Er bod ganddynt ddyletswyddau tuag at eu hetholaeth, mae gan gynghorwyr ddyletswydd bwysicach i'r gymuned yn gyffredinol. Am y rheswm hwn, ni ddylent ffafrio unrhyw unigolion neu grwpiau a dylent gynrychioli eu hetholwyr fel corff. Dylai cynghorwyr gyflawni eu dyletswyddau'n ddiduedd.

22 Mae Cyfansoddiad a Rheolau Sefydlog y Cyngor yn rhestru'r rheolau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu dilyn wrth gyflawni ei fusnes. Er nad oes dyddiad ar y Cyfansoddiad, mae'n nodi bod rhaid i aelodau ddatgan buddiannau. Mae gan y Cyngor God Ymddygiad i aelodau hefyd (Cod yr Aelodau) a dylai pob aelod fod wedi gwneud ymrwymiad ysgrifenedig i gydymffurfio â'r cod hwn. Mae Cod yr Aelodau yn ei gwneud hi'n ofynnol hefyd i aelodau unigol ddatgan eu buddiannau.

23 Rwyf wedi archwilio cofnodion y Cyngor a Chofrestr Buddiannau'r Aelodau ac yn nodi nad yw'r aelodau yn cofnodi eu buddiannau'n rheolaidd. Fodd bynnag, rwyf wedi nodi meysydd lle mae aelodau unigol wedi methu datgan eu buddiannau personol wrth drafod penderfyniadau allweddol.

24 Mae'r Cyng Williams yn un o gyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth. Roedd y cyn Glerc yn un o gyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth tan 2009. Roedd gan y ddau unigolyn, felly, fudd i'w ddatgan mewn unrhyw eitem o fusnes y Cyngor oedd yn ymwneud â'r Ymddiriedolaeth. Yn achos y Cyng Williams, mae'r buddiant hwn yn parhau. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r ddau wedi datgan unrhyw fuddiant yn yr Ymddiriedolaeth erioed pan fo'r Cyngor wedi bod yn trafod ac yn gwneud penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â'r Ymddiriedolaeth.

25 Mewn cyfweliad, eglurodd y Cyng Williams ei fod wedi dal swydd fel cynrychiolydd enwebedig y Cyngor ar fwrdd yr Ymddiriedolaeth i ddechrau. Fe'i penodwyd pan sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth rai blynyddoedd yn ôl. Dywedodd y Cyng Williams nad oedd yn ymwybodol y dylai ddatgan buddiant gan y byddai'r Cyngor yn gwybod mai ef oedd cynrychiolydd enwebedig y Cyngor.

26 Dros amser, mae statws yr Ymddiriedolaeth wedi newid ac mae bellach yn gwmni cyfyngedig, ac mae'r Cyng Williams yn un o'r cyfarwyddwyr. Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth yn nodi ei bod yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Llywio, (o drigolion lleol). Ni chyfeirir o gwbl at benodiadau gan y Cyngor.

27 Mewn cyfweliad, cyfeiriodd y Cyng Williams at yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor fel 'ni', gan symud yn aml rhwng y naill sefydliad a'r llall. Roedd hi'n anodd gwybod felly pa sefydliad roedd y Cyng Williams yn cyfeirio ato ar unrhyw adeg benodol.

28 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2013 yn amlygu'r anhawster hwn ymhellach. Cadarnhaodd y Cyng Williams ei fod wedi holi tirfeddiannwr lleol i weld a allai Mawr gael mynediad drwy ei dir i dir a oedd yn eiddo i'r Cyngor. Gofynnwyd i'r Cyng Williams ar ran pwy roedd yn gweithredu yn y cyd-destun hwn ac mae'r cofnodion yn nodi ei fod wedi ateb 'drosom ni'. Pan ofynnwyd iddo egluro hyn, atebodd y Cyng Williams 'Ymddiriedolaeth Datblygu Mawr'.

29 Yn fy marn i, nid yw'r Cyng Williams yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng gweithgareddau'r Cyngor a gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth, ac mae'n cymylu'r ffin rhwng ei gyfrifoldebau i'r ddau gorff.

30 Mae'r Cyng Williams yn anghytuno gyda'm casgliad ei fod yn cymylu'r ffin rhwng ei gyfrifoldebau i'r Cyngor ac i'r Ymddiriedolaeth. Mae'n credu ei fod wedi gweithredu'n deg a chyfrifol i'r ddau sefydliad, ar ran y gymuned. Dywedodd hefyd fod y Cyngor wedi gwerthfawrogi ei gyfraniad at drafodaethau am fusnes yr Ymddiriedolaeth a bod pawb yn gwybod bod gan y Cyng Williams rôl gyfrifol gyda'r Ymddiriedolaeth, hyd yn oed os nad oeddynt yn gwybod manylion trefniadau rheoli'r Ymddiriedolaeth.

31 Fodd bynnag, mae natur newidiol yr Ymddiriedolaeth yn golygu bod ei gysylltiad â'r Ymddiriedolaeth yn creu buddiant a ddylai gael ei ddatgan ac a oedd yn ei wneud yn anghymwys i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau, er bod gweddill y Cyngor yn ymwybodol ei fod yn gyfarwyddwr o bosibl. Nid yw cofnodion y Cyngor yn nodi'n glir a bleidleisiodd y Cyng Williams mewn unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn sgil diffygion yn natur y cofnodion a gadwyd, y byddaf yn manylu ymhellach ar hynny ym mharagraffau 33 i 38. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y Cyng Williams wedi cymryd rhan yn y trafodaethau ac felly y broses o wneud penderfyniadau. Rwy'n fodlon bod y Cyng Williams wedi gweithredu er lles gorau cymuned Mawr yn gyffredinol yn ei farn ef, ond mae'r ffaith ei fod wedi cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn gwneud penderfyniadau'r Cyngor ynghylch yr Ymddiriedolaeth yn anghyfreithlon. Mae ei fethiant i ddatgan diddordeb yn achos o dorri safonau priodol ymddygiad moesegol.

32 Rwy'n gwneud sylwadau pellach ar fethiant aelodau unigol i ddatgan buddiannau personol yn briodol ym mharagraffau 66 i 71.

## Mae aelodau unigol wedi anwybyddu safonau llywodraethu a rheoli ariannol priodol ac maent wedi methu gweithredu ar y gwersi a nodais yn fy adroddiad yn 2011

33 Un o'r materion mwyaf arwyddocaol yr adroddais arno yn fy adroddiad yn 2011 oedd bod y Cyngor yn gwneud taliadau heb dystiolaeth ddigonol neu briodol i gefnogi taliadau o'r fath. Mae arferion o'r fath yn methu bodloni'r safonau mwyaf sylfaenol o reolaeth ariannol y mae disgwyl i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â nhw. Mae fy archwiliad cyfredol wedi nodi enghreifftiau pellach o arferion o'r fath.

34 Er enghraifft, mae cofnodion y Cyngor yn nodi bod y Cyng Williams wedi gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r taliadau canlynol sy'n dod i gyfanswm o £10,614 yng nghyfarfod 4 Tachwedd 2012:

a £3,000 i dalu cost deunyddiau ar gyfer adnewyddu to Neuadd Les Craig-cefn-parc a £1,000 i dalu cost blaendal a roddwyd ar gyfer prynu ardal o goetir yn Felindre. Mae'r cofnodion yn nodi bod y Cyng Williams wedi egluro'r angen brys i wneud sieciau'n daladwy i'r Ymddiriedolaeth Datblygu am yr eitemau hyn.

b £2,654 i dalu cost trawsgludo gan gyfreithwyr y Cyngor.

c £3,960 i dalu am ddeunydd i drwsio'r rhannau sy'n weddill o do Neuadd Les Craig-cefn-parc.

Wrth ymateb i'r pryderon bod y Cyngor yn cael cais i gymeradwyo taliadau pan nad oedd anfonebau wedi'u darparu, yn ôl y cofnodion mae'r Cyng Williams wedi dweud wrth y Cyngor bod y dderbynneb ar gyfer cyfreithwyr y Cyngor gan Phil Owen yn Ymddiriedolaeth Datblygu Mawr ac y byddai ef yn ei gael ddydd Llun 5 Tachwedd 2012. Mae'r anfoneb ar gyfer £30,000 [sic] gan Drysorydd yr Ymddiriedolaeth a bydd y Cyng Williams yn ei chael ddydd Llun 5 Tachwedd 2012. Bydd y Cyng Williams yn cael yr anfoneb ar gyfer deunyddiau gan y contractwr sy'n gweithio ar y to, UK Roofing, ddydd Mercher 7 Tachwedd 2012.

35 Mewn llythyr ataf fi, dywedodd y Cyng Williams fod yr anfonebau hyn wedi'u darparu i'r Cyngor maes o law ac nad oedd unrhyw amhriodoleb gan fod y sieciau wedi'u hysgrifennu yn enw'r cyfreithwyr neu'r contractwyr, fel y bo'n briodol.

36 Roedd cofnodion cyfarfod 5 Rhagfyr 2012 yn dweud bod y Cyng Frame wedi nodi problemau sylweddol a difrifol ac wedi cwestiynu a oedd y gwaith o safon ddigonol. Gwahoddwyd cynrychiolydd o UK Roofing i fynychu'r cyfarfod i egluro'r sefyllfa ynghylch y to. Mae'r cofnodion yn nodi bod y cynrychiolydd wedi cadarnhau bod y cyfan a ddywedwyd yn wir, h.y. nad oedd y gwaith a gwblhawyd gan UK Roofing o safon briodol.

37 Mewn cyflwyniad ysgrifenedig, mae'r Cyng Williams yn cwestiynu cywirdeb y cofnodion ac yn datgan na wnaeth cynrychiolydd UK Roofing gyfaddef bod gwaith ansafonol wedi'i wneud ar y to. Eglurodd y Cyng Williams fod UK Roofing wedi dweud y byddai'n gwneud iawn am unrhyw broblemau gan fod yna 10 mlynedd o warant ar y gwaith a gwblhawyd. Nododd fod yna ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno hawliad am y grant oedd yn ariannu'r prosiect a bod rhaid talu'r anfoneb cyn y gellir tynnu'r arian i lawr.

38 Er hynny, roedd hi'n amhriodol i'r Cyng Williams ofyn i'r Cyngor dalu sieciau heb dderbynebau ategol ac ar gyfer gwaith nad oedd wedi'i gwblhau i'r safonau gofynnol. Deallaf na ddychwelodd UK Roofing i gywiro'r gwaith diffygiol a bod y cwmni wedi mynd i'r wal ers hynny.

## Mae diffygion yng nghofnodion y Cyngor yn ei gwneud hi'n anodd gwybod pa benderfyniadau a wnaed a pha wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi penderfyniadau

39 Mae'n rhaid i'r Cyngor gadw cofnodion o'i gyfarfodydd ac o unrhyw bwyllgorau. Cofnodion y Cyngor yw'r cofnod swyddogol o'i drafodion. Eu diben yw bod yn gofnod ffurfiol o'i weithredoedd a'i benderfyniadau swyddogol ac nid adroddiadau o areithiau a wnaed gan gynghorwyr unigol.

40 Gydol 2013, mae'n ymddangos mai cofnodi'n fanwl beth a ddywedwyd ym mhob cyfarfod a wna'r cofnodion. Mae hyn wedi achosi nifer o anawsterau gyda gwahanol bartïon yn dadlau pa benderfyniad a wnaed mewn gwirionedd yn y cyfarfod neu hyd yn oed a wnaed penderfyniad ai peidio.

41 Yn fy archwiliad, nodais nad oes cofnod clir o ba benderfyniadau a wnaeth y Cyngor mewn llawer o achosion.

42 Er enghraifft, mae cofnodion cyfarfod 16 Hydref 2013 yn nodi, mewn perthynas â chadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol, bod y Cyng Williams wedi cynnig bod y cofnodion yn gywir a bod y Cyng Torrington wedi'i eilio, a phawb wedi cytuno. Yn yr achos hwn, mae'n amlwg bod y Cyngor wedi penderfynu derbyn y cofnodion fel cofnod cywir.

43 Fodd bynnag, mae cofnodion y Cyngor yn cofnodi'n rheolaidd bod cynigion yn cael eu gwneud a'u heilio ond nid ydynt yn cofnodi'r penderfyniad a wnaed. Hefyd, yng nghyfarfod 16 Hydref 2013, mae'r cofnodion yn nodi bod y Cyng O'Sullivan wedi cynnig y dylai'r cyngor cymuned roi'r gorau i ddefnyddio ei gynghorwyr cyfreithiol a throsglwyddo'r ddogfennaeth i gyfreithiwr newydd. Roedd y cynnig wedi'i eilio gan y Cyng Davies. Yn yr achos hwn, nid yw'n glir a wnaeth y Cyngor benderfyniad ai peidio.

44 Mae'r anghysondeb a'r diffyg eglurder yn ei gwneud hi'n anodd gweld pa gamau gweithredu y mae'r Cyngor wedi cytuno iddynt ac yn gwneud y Cyngor yn agored i'r posibilrwydd o anghytundeb o fewn y Cyngor a/neu o her gan drydydd partïon.

45 Mae'r Clerc ac aelodau unigol y Cyngor yn gyfrifol am gywirdeb y cofnodion. Dylai'r Clerc sicrhau bod y cofnodion yn cofnodi'r busnes a gyflawnwyd, yn cynnwys penderfyniadau a wnaed. Mae aelodau unigol yn gyfrifol am adolygu'r cofnodion i sicrhau eu bod yn gofnod cywir o'r busnes a gyflawnwyd yn y cyfarfod. Yn Mawr, ar ddechrau pob cyfarfod, mae'r aelodau yn adolygu cofnodion y cyfarfod diwethaf ac yn pleidleisio i gadarnhau a yw'r cofnodion yn gofnod cywir ai peidio. Os oes gan aelodau gwestiwn ynghylch cywirdeb neu ddigonolrwydd y cofnodion dylent godi hynny ar yr adeg hon. Unwaith mae'r cofnodion wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir o'r cyfarfod maent yn dod yn gofnod swyddogol y Cyngor o'r cyfarfod ac mae'n rhaid tybio bod y cofnodion yn gyflawn a chywir ac na chafodd materion nad ydynt wedi'u cofnodi eu trafod gan y Cyngor neu eu hadrodd wrtho.

46 Wrth ymateb, dywedodd y Cyngor fod mwy o ofal yn cael ei gymryd i gwblhau'r cofnodion er mwyn sicrhau bod y Clerc yn gallu cofnodi penderfyniadau'r Cyngor yn glir. Mae'r Cyngor yn cydnabod hefyd bod gan aelodau unigol gyfrifoldeb i archwilio'r cofnodion yn ofalus cyn iddynt gael eu cymeradwyo i sicrhau eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod perthnasol.

## Methodd y Cyngor gydymffurfio â gofynion statudol i ystyried yr adroddiad a gyflwynais er budd y cyhoedd ym mis Rhagfyr 2011

### Methodd y Cyngor gymryd y camau gweithredol oedd yn ofynnol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran ymdrin â'r adroddiad a gyflwynais er budd y cyhoedd ym mis Rhagfyr 2011

47 Mae Deddf 2004 yn nodi'n fanwl beth sy'n rhaid i gynghorau ei wneud pan fo'r archwilydd penodedig yn cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd. Mae Deddf 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gynnal cyfarfod i ystyried yr adroddiad o fewn mis i'r dyddiad yr anfonodd yr archwilydd yr adroddiad at y Cyngor. Yn y cyfarfod hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu a yw'r adroddiad yn disgwyl i'r Cyngor gymryd unrhyw gamau gweithredu; os yw am dderbyn unrhyw argymhellion a wneir yn yr adroddiad a pha gamau, os o gwbl, y mae am eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad neu argymhellion yr adroddiad. Yn dilyn y cyfarfod, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr archwilydd yn cael ei hysbysu am benderfyniadau'r Cyngor, cael cymeradwyaeth yr archwilydd i grynodeb ysgrifenedig o'r penderfyniadau hynny a sicrhau bod hysbysiad yn cynnwys y crynodeb yn cael ei gyhoeddi mewn un papur newydd neu fwy sy'n gwasanaethu'r ardal.

48 Cyn cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd, rwy'n paratoi dogfen yn nodi fy nghanfyddiadau a'm sylwadau dros dro o'r archwiliad. Pwrpas y ddogfen yw fy helpu i ystyried a ddylwn gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ai peidio. Rwy'n anfon y ddogfen at bartïon perthnasol ac yn ystyried eu hymatebion cyn penderfynu adrodd er budd y cyhoedd. Cyfeirir at y ddogfen fel 'dogfen ystyried' yn hytrach nag adroddiad.

49 Yn dilyn cyhoeddi fy adroddiad er budd y cyhoedd yn 2011, tynnwyd fy sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi methu cynnal cyfarfod priodol. Ymhellach, roedd y cyn Glerc a'r cyn Gadeirydd (Cyng Strong) wedi methu darparu copïau i'r holl aelodau o fy 'nogfen ystyried' yn Hydref 2011 a'r adroddiad er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011.

50 Ar 11 Hydref 2011, ysgrifennais at y Cyng Strong yn amgáu copi o ddogfen ystyried mewn perthynas â'm harchwiliad i bob aelod o'r Cyngor. Gofynnais yn arbennig i'r Cyng Strong ddosbarthu'r rhain i'r holl aelodau. Yn ddiweddarach, clywais nad oedd y Cyng Strong wedi dosbarthu copi o'r ddogfen i bob aelod.

51 Bu'r Cyngor yn trafod dogfen ystyried Hydref 2011 mewn cyfarfod caeedig ar 19 Hydref 2011. Mae cofnodion y cyfarfod yn datgan bod y Cyngor wedi ystyried ymateb i lythyr yr archwilydd ac wedi penderfynu y byddai archwilydd mewnol y cyngor, Dudley Roberts, yn ymateb. Mewn ail gyfarfod caeedig a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2011 yr unig beth a nodir yng nghofnodion y Cyngor yw ei fod wedi ystyried llythyr gan Dudley Roberts, Archwilydd Mewnol y Cyngor at Archwilydd Cymru a bod llythyr Mr Roberts wedi'i ddarllen yn uchel a'r cyngor wedi penderfynu ei anfon at Swyddfa Archwilio Cymru.

52 Nid oes gan y Cyngor unrhyw gofnodion manwl i gofnodi'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y ddau gyfarfod.

53 Ar ôl derbyn ac ystyried ymatebion gan y Cyngor a phartïon eraill, deuthum i'r casgliad y byddai'n briodol cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd. Felly, ar 8 Rhagfyr 2011, cyhoeddais adroddiad er budd y cyhoedd i dynnu sylw at y methiannau yn nhrefniadau rheoli ariannol a llywodraethu'r Cyngor.

54 Nid yw cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2011 a mis Ionawr a Chwefror 2012 yn cofnodi bod y Cyngor wedi derbyn yr adroddiad. Mae cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2012 yn cofnodi bod y Cyngor wedi derbyn archwiliad cyflawn o gyfrifon gan Swyddfa Archwilio Cymru a'u bod wedi'u cymeradwyo.

55 Yn sgil methiant y Cyngor i ystyried yr adroddiad yn briodol, mynychais gyfarfod y Cyngor ym mis Mai 2012 i gyflwyno canfyddiadau fy adroddiad i'r Cyngor ac i aelodau'r cyhoedd.

56 Mae'r Cyng Strong wedi datgan ei bod wedi dosbarthu fy nogfen ystyried i bob aelod oedd yn bresennol yng nghyfarfod mis Hydref 2011 ond yn cadarnhau na roddodd gopïau i gynghorwyr unigol nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Eglurodd mai ei bwriad oedd sicrhau bod yr aelodau coll yn gweld yr adroddiad mewn cyfarfodydd dilynol. Er ei bod hi'n absennol o'r gadair yng nghyfarfod Ionawr 2012, dywedodd y Cyng Strong ei bod wedi gofyn i'r cyn Glerc sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei ddosbarthu a'i drafod, a'i bod wedi holi am hyn ar ôl y cyfarfod i sicrhau bod yr archwiliad wedi'i drafod ac wedi derbyn sicrwydd bod hynny wedi digwydd. Wrth dderbyn gohebiaeth bellach gennyf fi yn 2012 ynghylch fy adroddiad yn 2011, anfonodd gais at yr aelodau eraill er mwyn galw cyfarfod arbennig. Dywedodd

na dderbyniodd ymateb gan y Cadeirydd (Cyng Frame), y cyn Glerc nac unrhyw aelod arall heblaw'r Cyng Richard. Mae'r Cyng Strong yn credu bod y camau hyn yn dangos ymdrech wirioneddol i sicrhau bod pob aelod yn cael canfyddiadau'r archwiliad a'i fod yn cael ei drafod yn briodol.

57 Er gwaethaf barn y Cyng Strong, mae'n amlwg bod y Cyngor wedi methu dilyn proses briodol ar gyfer ystyried yr adroddiad a gyhoeddais yn 2011. Mae'r broses ofynnol i'w gweld yn Neddf 2004. Mae'n arwyddocaol mai'r unig dystiolaeth o drafodaeth yw trafod fy nogfen ystyried yng nghyfarfod Hydref 2011, cyfarfod a oedd yn gwahardd aelodau'r cyhoedd. Mae methiant y Cyngor ar y pryd i ystyried fy adroddiad yn briodol yn awgrymu i mi fod y Cyngor, neu aelodau unigol a'r cyn Glerc, wedi ceisio lleihau ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r adroddiad a'm beirniadaeth o'r Cyngor a'i gyn Glerc.

### Mae'r Cyngor wedi methu mynd i'r afael â'r holl wendidau a'r argymhellion a nodais yn fy adroddiad yn 2011

58 Yn fy adroddiad yn 2011, cyflwynais gyfres o argymhellion i helpu'r Cyngor i wella ei drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol. Er bod amser wedi mynd heibio ers hynny, nid yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â llawer o'r argymhellion eto. Yn Atodiad 2, rwy'n nodi'r camau a gymerodd y Cyngor a'r meysydd lle mae angen gwaith o hyd.

## Methodd y Cyngor gydymffurfio â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2012-13 a 2013-14 gan bennu cyllideb anghyfreithlon ar gyfer y blynyddoedd hynny yn fy marn i

59 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992) yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i'r Cyngor eu dilyn wrth bennu ei braesept. Mae Deddf 1992 (adran 41) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifo ei ofyniad cyllideb bob blwyddyn. Mae'n rhaid i'r praesept a gyflwynir i Ddinas a Sir Abertawe ddatgan y gofyniad cyllideb hwn yn ei gais praesept.

60 Mae Deddf 1992 (adran 50) yn nodi hefyd sut i gyfrifo'r gofyniad cyllideb. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried:

a holl wariant amcangyfrifiedig y flwyddyn ariannol;

b lwfans wrth gefn, ar gyfer gwariant na ellir ei ragweld;

c y swm y mae'r Cyngor yn credu y bydd yn briodol ei godi yn ystod y flwyddyn er mwyn ymdopi â gwariant amcangyfrifiedig y dyfodol, h.y. i'w gadw mewn cronfeydd wrth gefn; a'r

ch swm a amcangyfrifir gan y Cyngor sydd ei angen i ymdopi â gwariant o unrhyw flwyddyn ariannol flaenorol na ddarparwyd ar ei gyfer eto.

61 Roedd y ffi archwilio derfynol a godwyd mewn perthynas â'm hadroddiad yn 2011 yn £10,752 a TAW. Roedd fy adroddiad yn 2011 yn cynnwys amcangyfrif cychwynnol o ffi derfynol o £8,525.

62 Er bod y cyn Glerc (Robert King) a'r cyn Gadeirydd (Cyng Strong) wedi'u hysbysu o'r tebygolrwydd y byddai'r ffi archwilio yn codi yn sgil gwaith ychwanegol a wnaed cyn i mi gyhoeddi fy adroddiad ym mis Rhagfyr 2011, ni ystyriwyd y ffi hon wrth bennu'r gyllideb a'r praesept ar 18 Ionawr 2012. O ganlyniad, nid oedd gan y Cyngor ddigon o arian i fodloni ei rwymedigaethau yn 2012-13. Fe wnes i drefniadau, felly, i'r ffioedd archwilio gael eu talu mewn tri rhandaliad yn ystod 2013-14 i gyd-fynd â'r adegau yr oedd y Cyngor yn derbyn ei randaliadau praesept gan Gyngor a Dinas Abertawe. Roedd angen i'r Cyngor gynnwys y ffi yn ei gyllideb ar gyfer 2013-14 i hyn ddigwydd.

63 Mae'r Cyng Strong wedi datgan bod y Cyngor yn credu bod y ffioedd archwilio wedi'u chwyddo ac y byddent yn cael ei lleihau'n sylweddol. Nid oedd yn deall bod y Cyngor o dan rwymedigaeth gyfreithiol i gynnwys uchafswm yng nghyllideb 2012/13 ac roedd y Cyngor yn credu bod y ffigur yn parhau i gael ei drafod.

64 Yn fy marn i, roedd y gyllideb a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer 2012-13 y tu hwnt i'w bwerau ac yn anghyfreithlon. Penderfynais beidio â gofyn am adolygiad barnwrol o gyllideb y Cyngor ar gyfer 2012-13 am y rhesymau canlynol:

a byddai costau adolygiad o'r fath yn sylweddol ac yn faich ariannol ychwanegol i'r Cyngor; ac

b mae'r Cyngor wedi gwneud trefniadau i unioni'r camgymeriad ac i sicrhau y byddai'r ffioedd yn cael eu cynnwys yn y gyllideb a bennwyd yn gyfreithiol ar gyfer 2013-14.

65 Fodd bynnag, wrth archwilio cofnodion cyfarfod 16 Ionawr 2013 gwelir bod y broses ar gyfer pennu'r praesept ar gyfer 2013-14 yn ddiffygiol hefyd. Mae'r cofnodion yn cofnodi trafodaeth am y cyfrif banc a'r cynnydd arfaethedig yn y praesept ond nid ydynt yn sôn o gwbl bod y Cyngor wedi ystyried yr eitemau hynny sy'n ofynnol yn ôl adran 50.

66 Am y rheswm hwn, yn fy marn i, roedd y Cyngor wedi pennu cyllideb anghyfreithlon ar gyfer 2013-14 hefyd.

67 Mae'r Cyngor wedi fy hysbysu fod ei Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol wedi'u hadolygu erbyn hyn a'i fod wedi sefydlu trefniadau gwell ar gyfer pennu ei gyllideb ar gyfer 2015-16.

## Roedd penderfyniad y Cyngor i dynnu'r cais cynllunio yn ôl ar gyfer tir yng Nghraig Cefn Parc yn anghyfreithlon

68 Ym mis Rhagfyr 2012, penderfynodd y Cyngor gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer 28 o dai ar dir y mae'n berchen arno yng Nghraig Cefn Parc. Y nod oedd sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy yn y pentref ac i godi arian fel arian cyfatebol i'r grant yr ymgeisiodd yr Ymddiriedolaeth amdano i ddatblygu ardal chwarae aml-ddefnydd yn y pentref. Roedd y tir wedi'i glustnodi ar gyfer datblygiad tai yn y Cynllun Datblygu Unedol. Cyflwynwyd y cais am ganiatâd cynllunio ym mis Ionawr 2013.

69 Roedd rhai trigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais ac fe aethant ati i sefydlu cymdeithas trigolion lleol i wrthwynebu penderfyniad y Cyngor.

70 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 17 Gorffennaf 2013 yn nodi bod y Cyng Davies wedi gofyn a allai'r Cyngor ychwanegu trafodaeth ar dynnu'r cais cynllunio yn ôl ar gyfer Parc Ellen fel eitem ar agenda'r cyfarfod arbennig nesaf.

71 Ar 25 Gorffennaf 2013, mae cofnodion y Cyngor yn nodi ei fod wedi cyfarfod i drafod gwerthu tir ym Mharc Ellen, Craig-cefn-parc. Maent yn nodi bod y Cyng Torrington wedi cynnig y dylid tynnu'n ôl y cais cynllunio ar gyfer y datblygiad tai a'r cyfleuster hamdden ym Mharc Ellen, Craig-cefn-parc a wnaed ym mis Ionawr 2013. Mae'r cofnodion yn datgan bod y Cyng Clifford wedi eilio hyn a bod y Cyngor wedi cymryd penderfyniad unfrydol i wneud hynny [sic].

### Roedd y penderfyniad i dynnu'r cais cynllunio yn ôl ar gyfer datblygiad arfaethedig Craig-cefn-parc yn ddiffygiol gan nad oedd y mater hwn wedi'i nodi'n briodol yn yr wŷs i'r cyfarfod

72 Cyn pob cyfarfod, mae'n rhaid gadael neu anfon gŵys yn y post i gartref arferol pob aelod o'r Cyngor. Mae Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi bod rhaid i'r ŵys nodi'r busnes y mae'n bwriadu ei gyflawni mewn ffordd y gall pob aelod sydd yn ei dderbyn ddeall y materion y bydd disgwyl iddo ef neu hi eu trafod. Ni all cyngor benderfynu'n gyfreithlon ar unrhyw fater nad yw ar ei agenda.

73 Mae agenda cyfarfod 25 Gorffennaf 2013 yn rhestru'r canlynol fel eitem ar yr agenda:
'4. Trafod gwerthu tir ym Mharc Ellen, Craig-cefn-parc.'
Mae'r agenda yn awgrymu y byddai'r Cyngor yn trafod gwerthu'r tir. Mae hyn yn gamarweiniol; ni chyfeirir o gwbl at y cais am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd eisoes.

74 Yn fy marn i, ni allai'r Cyngor fod wedi gwneud penderfyniad cyfreithlon yn y cyfarfod hwnnw i dynnu'r cais cynllunio yn ôl gan nad oedd wedi'i nodi fel eitem i'w drafod ar yr agenda.

75 Yn ei ymateb, dywedodd y Cyngor ei fod yn credu bod yr aelodau'n cymryd yn ganiataol mai diben y cyfarfod oedd ystyried tynnu'r cais yn ôl. Dywed y Cyngor ei fod yn teimlo bod y cynghorwyr a'r cyhoedd yn ymwybodol o bwrpas y cyfarfod yn enwedig gan fod cofnodion cyfarfod blaenorol wedi nodi y byddai'r Cyngor yn penderfynu a ddylid tynnu'r cais cynllunio yn ôl ai peidio. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod cynghorwyr yn derbyn cyfrifoldeb i sicrhau cywirdeb yr agenda cyn cyfarfodydd i atal achosion tebyg rhag digwydd.

## Roedd y penderfyniad i dynnu'r cais cynllunio yn ôl ar gyfer datblygiad arfaethedig Craig-cefn-parc yn anghyfreithlon gan ei fod wedi'i gymryd gan aelodau â buddiannau personol neu ariannol heb eu datgan

76 Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i aelodau ddatgelu buddiannau personol neu ariannol mewn materion a drafodir gan y Cyngor. Nid yw'r cofnodion yn nodi bod cynghorwyr oedd yn bresennol yng nghyfarfod 17 Gorffennaf 2013 wedi datgan unrhyw fuddiannau.

77 Mae'r cofnodion yn nodi enwau chwe chynghorydd oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Y rhain oedd y Cyng L Frame, M Harris, A [Alan] Davies, G Clifford, B Torrington ac A Davies. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw hon yn rhestr gyflawn o'r aelodau oedd yn bresennol mewn gwirionedd. Mae'r cofnodion yn nodi hefyd bod y Cyng H Jones wedi cynnig y dylai'r Cyngor gymeradwyo taliad, sy'n dangos ei bod yn bresennol ac yn cymryd rhan yn y cyfarfod. Mae'r cofnodion yn nodi bod cynnig y Cyng Torrington (i dynnu'r cais cynllunio yn ôl) wedi'i eilio gan y Cyng Clifford a bod yr holl gynghorwyr oedd yn bresennol wedi pleidleisio o blaid y cynnig.

78 Tynnwyd fy sylw at y ffaith mai'r Cyng Alan Davies oedd cadeirydd y gymdeithas trigolion a sefydlwyd i wrthwynebu'r datblygiad. O ganlyniad, roedd ganddo fuddiant personol a dylai fod wedi datgan hyn. Yna, dylai fod wedi gadael y cyfarfod a pheidio â chymryd rhan yn y broses benderfynu.

79 Mae'r Cyng Clifford a Davies yn byw yn agos at y tir ym Mharc Ellen, Craig-cefn-parc. Yn ogystal, rwy'n deall bod tad y Cyng H Jones hefyd yn berchen ar dir yn agos at y safle datblygu arfaethedig. Mae gan bob un o'r cynghorwyr hyn, felly, fuddiant personol neu ariannol yn y penderfyniad a wneir gan y Cyngor. Roedd gan bob un o'r cynghorwyr fuddiant oedd yn eu hanghymwyso ac roedd eu cyfraniad at y broses benderfynu yn gwneud penderfyniad y Cyngor yn anghyfreithlon. Mae eu methiant i ddatgan eu buddiannau yn achos o dorri safonau priodol ymddygiad moesegol.

80 Yn fy marn i, roedd y penderfyniad i dynnu'r cais cynllunio yn ôl yn anghyfreithlon gan ei fod wedi'i wneud gan aelodau oedd â buddiannau personol neu ariannol heb eu datgan. Ymhellach, pe bai'r aelodau hynny wedi esgusodi eu hunain o'r cyfarfod, ni fyddai gan y cyfarfod gworwm ac ni fyddai wedi gallu gwneud penderfyniad dilys.

81 Yn ogystal, yn y cyfarfod ymgynghori cyhoeddus a drefnwyd gan y Cyngor ac a gynhaliwyd yn Neuadd Les Craig-cefn-parc ar 24 Hydref 2013, awgrymodd y Cyng Harris y gallai'r tir ym Mharc Ellen gael i werthu i bob un o'r cartrefi sy'n cefnu ar Barc Ellen. Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi bod y Cyng Harris wedi awgrymu y dylid gwerthu am £10,000 os oedd y tir werth £20,000 ar y farchnad. Byddai hyn wedi sicrhau mantais uniongyrchol i'r aelodau hynny oedd â buddiannau. Ni ddatgelodd y Cyng Clifford, Davies a H Jones fuddiannau yn y cyfarfod hwn (er derbynnir nad oedd hwn yn gyfarfod ffurfiol o'r Cyngor).

82 Mae'r Cyngor yn nodi bod cynghorwyr yn ymwybodol bod angen iddynt ddatgan buddiannau ond nad oeddynt yn ymwybodol o'r graddau y mae disgwyl iddynt wneud datganiadau o'r fath. Nawr fod hyn wedi'i amlygu, bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr aelodau yn datgelu buddiannau personol neu ariannol yn y dyfodol.

83 Yn fy marn i, roedd gan y Cyng Clifford a Davies fuddiant personol clir ac uniongyrchol ac roedd gan y Cyng Jones fuddiant yn sgil cysylltiad teuluol. Nid wyf yn credu nad oeddynt yn ymwybodol o'r angen i ddatgelu buddiannau o'r fath.

## Mae'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth yn amhriodol ac mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn prosiectau lle nad yw'n deall yn llawn beth yw ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â hwy

### Er bod y ddau gorff yn ceisio gweithredu er budd cymuned Mawr, mae diffyg unrhyw drefniadau neu berthynas ffurfiol wedi arwain at drefniadau anffurfiol gyda threfniadau ariannu cymhleth ar gyfer prosiectau

84 Bydd y prosiectau i greu llwybr troed coetir ac i adnewyddu Neuadd Les Craig-cefn-parc yn dod â manteision i'r gymuned ac nid wyf yn gwneud unrhyw sylwadau eraill ar rinweddau'r prosiectau hyn.

85 Mae'n amlwg i mi fod y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth yn ceisio gweithredu er budd cymuned Mawr a'i bod hi'n gwbl briodol bod y ddau gorff yn cydweithio i sicrhau'r effaith orau bosibl i'r gymuned yn gyffredinol.

86 Fodd bynnag, dylai cydweithio o'r fath ddigwydd ar sail cytundeb ffurfiol rhwng y ddau barti sy'n nodi cyfrifoldebau'r naill a'r llall. O ran prosiectau unigol, dylid sefydlu rôl y partïon a chytuno ar drefniadau ariannu pob prosiect a'u cyfathrebu'n glir i'r ddau barti cyn dechrau'r prosiect. Ni thynnwyd fy sylw at drefniadau o'r fath. Yn achos prosiectau a gyflawnir ar y cyd gan y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth mae'n amlwg nad yw'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'r trefniadau ariannol a sut bydd y rhain yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae'n ymddangos i mi mai'r prif reswm am hyn yw methiant llwyr cynghorwyr unigol i gysylltu a chyfathrebu'n briodol â'i gilydd.

87 Dywedodd y Cyng Williams, er efallai nad oedd cynghorwyr unigol yn gwbl ymwybodol o'r trefniadau ariannol gan nad oeddynt yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd, ei fod yn darparu manylion y trefniadau yng nghyfarfodydd y Cyngor. Dywed y Cyng Williams bod y cofnodion yn wael. Rwy'n gwneud sylwadau ar y cofnodion a chyfrifoldebau aelodau unigol i sicrhau eu bod yn gywir ym mharagraffau 33 i 39.

88 Pe byddai trefniadau priodol a ffurfiol wedi bod ar waith ar gyfer prosiect llwybr troed y coetir a'r gwaith adnewyddu yn Neuadd Les Craig-cefn-parc, a phe bai cynghorwyr wedi bod yn barod i wrando ar ei gilydd a chydweithio, byddai'r Cyngor wedi arbed ei hun rhag yr anghytundeb a'r drwgdeimlad diweddar.

89 Yn ei ymateb i mi, mae'r Cyngor yn dweud ei fod wedi nodi'r anfodlonrwydd ynghylch y berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor yn ei gofnodion a bod yna ymdrech wirioneddol wedi bod i unioni llawer o'r meysydd oedd yn destun pryder.

## Mae'r ceisiadau am gyllid grant a wnaed ac a ddefnyddiwyd gan Swyddog Datblygu'r Ymddiriedolaeth ar ran y Cyngor ar gyfer prosiect llwybr troed y coetir ac i adnewyddu Neuadd Les Craig-cefn-parc yn anghyfreithlon gan eu bod wedi'u gwneud heb awdurdod y Cyngor

90 Mae prosiect y llwybr troed coetir a gwaith adnewyddu Neuadd Les Craig-cefn-parc wedi'u hariannu'n rhannol gan arian grant y gwnaed cais amdano yn enw'r Cyngor.

91 Mewn e-bost at y Clerc cyfredol dyddiedig 22 Mai 2013, mae Mr Owen (Swyddog Datblygu'r Ymddiriedolaeth) yn sôn wrth y Clerc cyfredol am y ceisiadau am grant y mae ef wedi'u gwneud ers dechrau'r swydd yn 2008. Cyflwynwyd 3 chais ar ran y Cyngor Cymuned:

a Prynu coetir a datblygu llwybr mynediad yr ysgol gynradd yn Felindre.

b Adnewyddu toeau'r estyniad yn Neuadd Les Craig-cefn-parc.

c Mynegi diddordeb ar gyfer adnewyddu to Neuadd Les Garn-swllt.

92 Mae Mr Owen yn nodi hefyd iddo wneud cais am ganiatâd cynllunio ar dir yn Garn-swllt ar ran y Cyngor.

93 Yn ei e-bost, mae Mr Owen hefyd yn datgan:

a Mewn perthynas â llwybr y coetir – y bydd hwn yn cael ei gwblhau unwaith y bydd y contractwr yn cael ei dalu ac i Mr Owen dderbyn gwybodaeth fel y gallai hawlio gweddill yr arian ar ran y Cyngor.

b Mewn perthynas ag adnewyddu Neuadd Les Craig-cefn-parc – mae hwn wedi'i gwblhau ac roedd wedi cyflwyno hawliad am arian ar ran y Cyngor. Pan fydd yr arian wedi cyrraedd cyfrif banc y Cyngor bydd angen i'r Cyngor ad-dalu'r arian a fenthyciwyd iddo gan yr Ymddiriedolaeth er mwyn i'r prosiect fynd yn ei flaen.

94 Yn y ddau achos, mae'r ffurflenni cais yn nodi'r Cyng Williams fel y prif gyswllt. Ardystiodd y Cyng Williams y ffurflenni cais fel cynghorydd cymuned. Wrth wneud hynny, darparodd yr ardystiad canlynol, 'Rwy'n gweithredu gydag awdurdod y Sefydliad Ymgeisio ac yn ardystio, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod y cofnodion a'r manylion ar y ffurflen gais hon…. yn gywir'

95 Rwyf wedi archwilio cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a dogfennau eraill a ddarparwyd gan y Cyngor. Ni allaf weld bod y Cyngor wedi rhoi unrhyw awdurdod i'r Cyng Williams ymgeisio am grantiau am yr un o'r prosiectau. Fodd bynnag, mae'r Cyng Williams yn honni iddo roi gwybod i'r Cyngor am y grantiau yr ymgeisiodd amdanynt.

96 Yn fy marn i, gweithredodd y Cyng Williams heb awdurdod wrth ymgeisio am gyllid grant ar ran y Cyngor ac roedd ei ardystiad ei fod wedi gweithredu gydag awdurdod y Cyngor yn anghywir. Rwyf o'r farn, felly, bod y ceisiadau grant yn anghyfreithlon ac roedd derbyn yr arian hwn wedyn yn arwain at eitemau yn y cyfrif oedd yn groes i'r gyfraith.

97 Cadarnhaodd Mr Owen wrthyf ei fod wedi paratoi'r ceisiadau i'r Cyng Williams eu hardystio ar gais y Cyng Williams. Ymhellach, dywedodd nad yw'n derbyn ei fod wedi gweithredu heb awdurdod y Cyngor. Dywedodd fod awdurdod yn cael ei roi ar lafar yn aml iawn i fwrw ymlaen â gwaith bryd hynny. Fodd bynnag, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth i ddangos bod Mr Owen wedi'i awdurdodi i baratoi ceisiadau, i ymgeisio am gyllid grant neu i ddefnyddio'r arian ar ran y Cyngor.

98 Ar y sail hon, rwy'n ystyried bod y ceisiadau grant a gwblhawyd gan Mr Owen a'u llofnodi gan y Cyng Williams a thynnu grantiau o'r fath i lawr yn anghyfreithlon. Roedd hyn wedi arwain at eitemau yn y cyfrif oedd yn groes i'r gyfraith.

99 Mae'r Cyngor wedi datgan y bydd, wrth gymryd rhan mewn prosiectau ar y cyd yn y dyfodol, yn sicrhau y bydd yna friff a rolau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer yr Ymddiriedolaeth neu grwpiau eraill y gallai fod yn gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau budd i'r gymuned. Bydd y Cyngor yn disgwyl cael adborth rheolaidd hefyd… i sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac yn cofnodi penderfyniadau a wnaed gan y cyngor â chworwm nid aelodau unigol.

## Gweithredodd Swyddog Datblygu'r Prosiect heb awdurdod y Cyngor pan ddywedodd wrth gyfreithwyr y Cyngor i weithredu mewn perthynas â phrynu tir ar gyfer prosiect llwybr y coetir

100 Mae Mr Owen, Swyddog Datblygu'r Ymddiriedolaeth, yn un o weithwyr cyflogedig yr Ymddiriedolaeth ac nid yw'n cael ei gyflogi gan y Cyngor mewn unrhyw ffordd. Serch hynny, ar 29 Rhagfyr 2011, anfonodd cyfreithiwr y Cyngor e-bost at Mr Owen yn cadarnhau y byddai'n falch o weithredu ar ran y Cyngor Cymuned wrth iddo brynu'r tir uchod a'i fod yn amgáu ei lythyr telerau ac amodau safonol i'w lofnodi a'i ddychwelyd yn y ffordd arferol. Roedd hefyd yn gofyn yn garedig a fyddai'r cyngor yn gallu darparu siec o £500 + TAW er mwyn iddo roi'r ymrwymiad gofynnol i gyfreithiwr y gwerthwr i dalu ei gostau boed y mater yn mynd ymlaen i'r cam cwblhau ai peidio.

101 Nid wyf wedi gallu gweld pa ddogfen gan y Cyngor oedd yn awdurdodi ei gyfreithiwr i ymdrin yn uniongyrchol â Mr Owen o'r Ymddiriedolaeth yn hytrach na chyda'r cyn Clerc yn uniongyrchol. Yn absenoldeb tystiolaeth gan y Cyngor, gofynnais am y wybodaeth hon gan gyfreithiwr y Cyngor a gadarnhaodd bod Mr Owen wedi cysylltu ag ef drwy e-bost ar 6 Rhagfyr 2011 yn datgan:
'Allwch chi gynrychioli'r Cyngor Cymuned wrth iddo brynu'r coetir yn y cynllun, os gwelwch chi'n dda… Rydym wedi cytuno i dalu costau cyfreithiol y ddwy ochr, cyn belled bod y costau hyn yn rhesymol. Rwyf wedi gwneud cais am gyllid grant ar gyfer y pryniant hwn, a ddylai fod yn ddigon syml. £3,000 yw'r pris prynu.'

102 Mae Mr Owen wedi dweud wrthyf fod y cyn Glerc a Chynghorydd wedi gofyn iddo ysgrifennu at gyfreithiwr y Cyngor. Dywedodd Mr Owen hefyd ei fod wedi anfon yr ateb a'r dogfennau cysylltiedig ymlaen i'r cyn Glerc a lofnododd nhw a'u dychwelyd at y cyfreithiwr.

103 Cadarnhaodd cyfreithiwr y Cyngor hefyd nad oedd wedi cael gwybod nad yw Mr Owen yn swyddog gyda'r Cyngor.

104 Yn fy marn i, mae'n anghywir i Mr Owen gyfarwyddo cyfreithiwr i weithredu ar ran y Cyngor yn absenoldeb awdurdod gan y Cyngor i wneud hynny.

## Ni chafodd taliadau a wnaed i, neu ar ran, yr Ymddiriedolaeth eu hadrodd yn gywir i'r Cyngor

105 Un o'r gofynion allweddol ar gyfer atebolrwydd cynghorau lleol yw y dylai eu cofnodion ariannol fod yn dryloyw a chael eu hategu gan ddogfennau priodol. Adroddais ar hyn yn fy adroddiad yn 2011. Yn ystod fy archwiliad cyfredol, gwelais fod methiannau'n parhau o hyd yng nghofnodion y Cyngor sy'n golygu na ellir gwybod i sicrwydd beth oedd trafodion y Cyngor gyda'r Ymddiriedolaeth.

106 Er enghraifft, ar 1 Mehefin 2011, ysgrifennodd Mr Owen o'r Ymddiriedolaeth at y cyn Glerc i ofyn i'r Cyngor ddarparu grant o £420 ar gyfer cynnal arolwg asbestos yng Nghapel Gerasim, Cwmcerdinen. Yn amgaeedig gyda'r llythyr hwn mae:

a Anfoneb gan Anchem Laboratories Ltd am £420. Fodd bynnag, enw Cyngor Cymuned Mawr sydd ar yr anfoneb a'r dyddiad yw 1 Ebrill 2011.

b Datganiad gan Anchem Laboratories Ltd yn dangos iddynt dderbyn taliad o £420.

c 'Taleb' mewn llawysgrifen a baratowyd gan y cyn Glerc gyda'r manylion 'Work at Grazim [sic] Chapel – Grant to Mawr Development Trust'.

107 Ar 20 Gorffennaf 2011, roedd y rhestr o daliadau a gyflwynwyd i'r Cyngor eu cymeradwyo yn cynnwys 'Ancheron [sic] (work at Gerazim Chapel) £420.00'. Nid oes cofnod bod y Cyngor wedi cymeradwyo talu grant i'r Ymddiriedolaeth. Y cyn Glerc oedd yn cadw'r cofnodion bryd hynny.

108 Yn fy marn i, camarweiniwyd y Cyngor ynghylch pwrpas y taliad i Anchem. Grant i'r Ymddiriedolaeth ydoedd yn hytrach na thaliad i Anchem.

109 Mae'r Cyngor yn nodi ei fod wedi cydnabod a chymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn ac y bydd rhaid i'r Clerc gyflwyno pob gohebiaeth a dogfennaeth i'r Cyngor yn y dyfodol ac na fyddai'r Cyngor yn derbyn dogfennaeth yn uniongyrchol gan gynghorwyr unigol, y pwyllgorau neuadd na'r Ymddiriedolaeth.

## Mae'r gwariant ar brosiect llwybr troed y coetir yn anghyfreithlon gan fod aelodau unigol, cyn Glerc y Cyngor a Swyddog Datblygu'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu heb awdurdod y Cyngor

110 Rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Gorffennaf 2013 roedd y Cyngor yng nghanol anghydfod mewnol ynghylch prosiect i greu llwybr troed coetir rhwng Neuadd Les Felindre ac Ysgol Gynradd Felindre. Y broblem gyda'r prosiect llwybr troed coetir yw bod aelodau unigol wedi bod yn anwybyddu prosesau priodol y Cyngor ac wedi bod yn gweithredu heb awdurdod neu wybodaeth y Cyngor yn gyffredinol. Roedd y rhai oedd yn rheoli'r prosiect yn methu gwahaniaethu rhwng rôl y Cyngor a rôl yr Ymddiriedolaeth. Cafwyd methiannau o ran cyfathrebu wrth i'r naill ochr na'r llall fethu deall pryderon ei gilydd.

### Nid yw cofnodion y Cyngor yn datgan yn glir beth yw natur rôl y Cyngor ym mhrosiect llwybr y coetir

111 Gofyniad sylfaenol ar gyfer rheoli arian cyhoeddus yn effeithiol yw bod rhaid i'r Cyngor ddeall ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â phrosiectau y mae'n rhan ohonynt. Yn achos prosiectau rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth, ni fodlonwyd y gofyniad hwn.

112 Awgrymodd y Cyng Williams, y Cyng Richard a Mr Owen wrthyf fod y Cyngor wedi bod yn ymwybodol o'i rôl yn y prosiect erioed. Mynegwyd barn wahanol gan y Cyng Frame a'r Cyng Weeks, a ddywedodd nad oeddynt yn gwybod am y prosiect tan ar ôl i'r gwaith gael ei orffen a bod anfoneb wedi'i hanfon at y Cyngor.

113 Mewn cyflwyniad ysgrifenedig a gefais ynghylch prosiect llwybr troed y coetir, dywed y Cyng Richard, er bod y Cofnodion yn amwys, mewn rhai achosion, Cyngor Cymuned Mawr sy'n gyfrifol am y Grant yn y pen draw yn ôl ein dealltwriaeth ni o'r sefyllfa [sic].

114 Mewn llythyr dyddiedig 16 Mehefin 2013, dywedodd y Cyng Richard ei fod ef dan yr argraff erioed bod Mr Phil Owen wedi gweithredu fel 'cynghorydd' i'r prosiect a bod y cynllun cyfan yn cael ei gyflawni yn enw Cyngor Cymuned Mawr gan ddefnyddio arian grant i ariannu'r cyfan ohono. Yn y llythyr, mae'r Cyng Richard hefyd yn datgan bod y Cyngor wedi caffael tir yn benodol ar gyfer y cynllun hwn. Wrth ymateb i ddrafft o'r ddogfen hon, dywedodd y Cyng Richard fod Mr Owen yn rheoli'r prosiect yn effeithiol hyd y gwyddai'r Cyngor a'i fod ef wedi dehongli hyn i olygu bod y Cyngor wedi dirprwyo pwerau i Mr Owen agor tendrau.

115 Mewn e-bost dyddiedig 11 Gorffennaf 2013, darparodd Mr Owen gopi i mi o gofnodion cyfarfod y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2011 gan ddweud bod y cofnodion yn dangos bod y Cyngor yn ymwybodol o'r prosiect ac yn gwybod y byddai'r tir yn eiddo iddo ar ôl cwblhau'r prosiect. Deallaf fod hyn wedi'i fynegi'n glir yng nghyfarfodydd eraill y Cyngor - mai prosiect ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth oedd hwn. Mae sawl Cynghorydd blaenorol, a oedd yn rhan o'r prosiect, yn hapus i lofnodi eu bod yn ymwybodol o hyn.

116 Mae'r cyfeiriad cyntaf at greu llwybr troed coetir yn Ysgol Felindre yng nghofnodion y Cyngor ym mis Rhagfyr 2011. Codwyd mater y llwybr troed mewn gwahanol gyfarfodydd o'r cyngor yn y cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2013. Mae'r cofnodion perthnasol wedi'u crynhoi yn Atodiad 3.

117 Nid yw cofnodion swyddogol y Cyngor yn nodi'n glir a oedd prosiect y llwybr troed yn mynd i gael ei arwain gan y Cyngor fel y dywedodd y Cyng Richard. I'r gwrthwyneb, yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2011, roedd hi'n ymddangos mai'r Ymddiriedolaeth fyddai'n arwain y prosiect ac yn trosglwyddo perchnogaeth y tir i'r Cyngor. Cadarnhawyd hyn yng nghofnodion 9 Mai 2012 lle mae'r Cyng Williams yn datgan yn glir mai'r Ymddiriedolaeth ac nid y Cyngor oedd wedi caffael y tir. Ymhellach, nid yw'r cofnodion yn nodi unrhyw achos o ddirprwyo awdurdod i aelodau unigol na Mr Owen i weithredu ar ran y Cyngor mewn perthynas â'r prosiect hwn.

118 Dywedodd y Cyng Richard wrthyf fod y prosiect yn cynnwys caffael dau ddarn o dir. Rhoddwyd y darn cyntaf o dir fel rhodd i'r Ymddiriedolaeth ac yna'i drosglwyddo i'r Cyngor. Y Cyngor brynodd yr ail ddarn o dir. O'r ddogfennaeth sydd ar gael i mi, nid yw'n glir mai dyma oedd yr achos ac mae hyn yn enghraifft bellach o'r diffyg eglurder cyffredinol sy'n gysylltiedig â threfniadau'r prosiect.

119 Er gwaethaf hyn, mae'n amlwg i mi fod rhywfaint o wybodaeth am y prosiect wedi'i chyflwyno i aelodau mewn nifer o gyfarfodydd. Felly, roedd y Cyngor yn ymwybodol o'r prosiect er nad oedd y Cyngor cyfan wedi'i hysbysu am natur rôl y Cyngor yn y prosiect nac i ba raddau roedd yn ymwneud ag ef. Nid yw felly'n gredadwy i'r Cynghorwyr Frame a Weeks ddatgan nad oeddynt yn gwybod am y prosiect o gwbl cyn i'r Cyngor dderbyn anfoneb am y gwaith a gwblhawyd.

## Roedd dyfarnu'r contract i greu llwybr troed y coetir yn anghyfreithlon gan fod nifer fechan o gynghorwyr wedi dyfarnu'r contract i greu'r llwybr heb awdurdod a gwybodaeth y Cyngor

120 Fel y nodwyd uchod, nid oes tystiolaeth glir i ddangos bod y Cyngor yn ymwybodol o'i rôl yn y prosiect hwn. Ymhellach, nid oes gan y Cyngor dystiolaeth ddogfennol ddigonol i ddangos pa unigolion oedd yn gyfrifol am y digwyddiadau.

121 Nid yw'n glir sut y cafodd contractwyr posibl eu clustnodi a phwy a'u gwahoddodd i gyflwyno dyfynbris am y gwaith. Nid oedd y Cyngor yn gallu darparu'r dyfynbrisiau a gyflwynwyd i mi. Er gwaethaf hynny, nid oedd gan y Cyngor y dogfennau gofynnol, cyflwynodd Mr Owen o'r Ymddiriedolaeth fanyleb am y gwaith a baratowyd gan y cyn Glerc a chopïau o dri dyfynbris a dderbyniwyd. Roedd y dyfynbrisiau wedi'u cyfeirio at Gyngor Cymuned Mawr a'u dychwelyd i Neuadd Les Felindre.

122 Mae gohebiaeth gyda'r Cyng Richard a Mr Owen, fodd bynnag, wedi dangos sut y gwnaed y penderfyniad i ddyfarnu'r contract.
Mewn e-bost, dywedodd y Cyng Richard fod Prosiect y Llwybr Troed wedi'i nodi yn ei ddyddiadur o dan y pennawd blêr 'Coetir Cymuned Felindre' ar gyfer 'Cyfarfod am 2pm yn Neuadd Felindre' ar 19-10-12. Roedd ef, Glynn Jones a Dorian Williams wedi dod ynghyd i fod yn dystion i broses agor tendrau'r prosiect. Yn ôl yr hyn mae'r Cyng Richard yn ei gofio, roedd y Clerc, Robert King yn methu bod yno ac roedd Phil Owen o Ymddiriedolaeth Mawr wedi dod â thair amlen a'u hagor o'u blaenau. Tri thendr oedd yno.

123 Mae Mr Owen yn cadarnhau'r trefniadau hyn mewn e-bost ar 11 Gorffennaf 2013, gan ddweud ei fod yn deall bod y dyfynbrisiau wedi'u hasesu gan y Cyng Dorian Williams, Glyn Jones a Ioan Richard brynhawn Gwener 19 Hydref a bod y Cyng Williams wedi dweud wrth y contractwr ei fod wedi ennill y contract. Fodd bynnag, mae Mr Owen wedi dweud ei fod ar wyliau ar 19 Hydref 2012 ac na chymerodd ran yn y broses benderfynu.

124 Eglurodd y Cyng Williams a'r Cyng Richard bod y tri chynghorydd wedi cyfarfod i ymdrin â'r dyfynbrisiau gan fod y Cyng Williams a'r Cyng Jones yn lleol a bod y Cyng Richard ar gael. Ond drwy gyfarfod i ystyried y dyfynbrisiau a dderbyniwyd ar gyfer prosiect llwybr troed y coetir, roedd y Cyng Williams, Richard a Jones yn gweithredu heb awdurdod y Cyngor. Mae Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i'r Cyngor drefnu i bwyllgor o'r cyngor gyflawni ei swyddogaethau. Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor wedi sefydlu is-bwyllgor gyda chyfansoddiad priodol ac awdurdod dirprwyedig i gaffael contract ar gyfer creu llwybr troed. Roedd y tri aelod a wnaeth y penderfyniad i ddyfarnu'r contract wedi gwneud hynny heb yn wybod i'r Cyngor a heb ei awdurdod. Ymhellach, ni chafodd y penderfyniad i ddyfarnu'r contract ar ran y Cyngor ei gyfathrebu i'r Cyngor o gwbl.

125 Yn ei ymateb i fersiwn ddrafft y ddogfen hon, dywedodd y Cyng Richard fod ganddo frith gof bod y cyfarfod a gynhaliwyd i agor y tendrau yn gyfarfod cyngor arbennig. Dywedodd na ellir dibynnu ar Gofnodion Cyngor Mawr y naill ffordd na'r llall gan eu bod mor annelwig. Yn ei ymateb i fersiwn ddrafft y ddogfen hon, dywedodd y Cyng Williams fod Clerc y Cyngor wedi cael cais i alw cyfarfod, a'i fod wedi'i alw ar yr adeg fwyaf cyfleus i'r rhan fwyaf o gynghorwyr. Hyd y gwyddai ef, roedd y Clerc wedi cysylltu â phob cynghorydd. Dywed y Cyng Richard a'r Cyng Williams mai dim ond pum cynghorydd oedd yn mynychu cyfarfodydd ar yr adeg hon.

126 Nid wyf yn ystyried bod esboniadau'r Cyng Richard a'r Cyng Williams yn gredadwy am y rhesymau canlynol:

a mae cyfarfod Cyngor a drefnwyd yn briodol yn gofyn am rybudd o dri diwrnod clir o leiaf ac mae'n rhaid nodi'r busnes i'w gyflawni;

b roedd y cyn Glerc wedi ymddiswyddo ym mis Medi 2012 ac ni fyddai mewn sefyllfa i alw cyfarfod ym mis Hydref;

c ni chafodd y Clerc cyfredol ei benodi tan gyfarfod 17 Hydref 2012 ac ni fyddai wedi bod mewn sefyllfa i gysylltu â chynghorwyr tan 18 Hydref 2012;

ch nid wyf wedi gweld unrhyw gofnodion na dogfennaeth arall a fyddai'n awgrymu bod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2012 yn gyfarfod cyngor a drefnwyd yn briodol;

d nid yw cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2012 yn cyfeirio at gyfarfod Cyngor i'w gynnal ar 19 Hydref o gwbl; ac

dd nid oedd y Cyng Richard na'r Cyng Williams na Mr Owen wedi codi hyn fel posibilrwydd mewn cyfweliad o'r blaen.

127 Yn fy marn i, roedd dyfarnu'r contract ar gyfer creu llwybr troed y coetir yn anghyfreithlon gan fod yr aelodau oedd yn gwneud y penderfyniad yn gweithredu heb awdurdod cyfreithlon i wneud hynny. Mae hyn yn arwain at eitem yn y cyfrif (gwariant ar y llwybr troed) sy'n groes i'r gyfraith.

128 Dywedodd y Cyng Williams mai'r tri aelod yn y cyfarfod oedd yr unig aelodau oedd ar gael ar y pryd. Fodd bynnag, ni chafodd y cyfarfod ei drefnu'n briodol na'i gofnodi fel cyfarfod y Cyngor.

129 Mae'r Cyngor wedi datgan y bydd yna rolau wedi'u diffinio a briff clir i bob parti sy'n gysylltiedig ag unrhyw brosiectau ar y cyd yn y dyfodol ac y bydd yn disgwyl adborth rheolaidd gan weithgorau neu bwyllgorau i sicrhau ei fod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac yn gwneud penderfyniadau ffurfiol sy'n cynnwys y Cyngor cyfan yn hytrach na chynghorwyr unigol.

## Mae'r Cyngor wedi cael benthyciad gan yr Ymddiriedolaeth heb gael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ac nid yw wedi ad-dalu cyfran sylweddol o'r benthyciad eto

130 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn rhoi pwerau i gynghorau cymuned fenthyg arian gan unrhyw fenthyciwr parod yn cynnwys unigolion a sefydliadau preifat yn ogystal â banciau. Fodd bynnag, mae yna gyfyngiadau i bwerau o'r fath:

a mae'n rhaid i'r gwariant a fydd yn cael ei ariannu gan y benthyciad fod yn wariant cyfalaf; ac

b mae'n rhaid cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru cyn cael benthyciad.

131 Mewn e-bost dyddiedig 15 Ebrill 2013 at y Clerc cyfredol, mae Mr Owen yn dweud fod yr Ymddiriedolaeth wedi benthyca arian i'r Cyngor i dalu contractwyr gan mai dim ond ar ôl cwblhau'r gwaith roedd modd hawlio un o'r grantiau. Mae rhywfaint o'r arian hwn wedi'i ad-dalu. Mae angen ad-dalu'r gweddill. Roedd Mr Owen yn gofyn i'r Ymddiriedolaeth sicrhau awdurdod ar gyfer hyn.

132 Yn ei e-bost dyddiedig 22 Mai 2013, wrth gyfeirio at adnewyddu Neuadd Les Craig-cefn-parc dywedodd Mr Owen:

a Bod y gwaith wedi'i gwblhau a'i fod wedi hawlio cyllid ar ran y Cyngor. Unwaith y bydd yr arian yng nghyfrif banc y Cyngor, bydd angen i'r Cyngor ad-dalu'r arian a fenthyciwyd iddo gan yr Ymddiriedolaeth er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r prosiect.

133 Mewn e-bost dilynol ar 11 Gorffennaf 2013 dywedodd Mr Owen fod ei gyfeiriad at yr Ymddiriedolaeth yn rhoi benthyciad i'r Cyngor Cymuned yn flaenswm ar grant, yn hytrach na benthyciad. Nid oedd yn sylweddoli arwyddocâd y gwahaniaeth rhwng y ddau air.

134 Nid wyf yn derbyn honiad Mr Owen mai 'blaenswm ar grant' oedd y 'benthyciad' gan yr Ymddiriedolaeth i'r Cyngor. Mae'n amlwg o e-bost Mr Owen at y Clerc cyfredol bod y trosglwyddiad wedi'i fwriadu fel benthyciad ac yn cael ei ystyried felly. Mewn cyfweliad, cadarnhaodd Mr Owen bod yr Ymddiriedolaeth wedi darparu'r arian ymlaen llaw er mwyn i'r Cyngor allu talu biliau cyn tynnu'r arian grant i lawr. Ad-dalodd y Cyngor y £9,000 i'r Ymddiriedolaeth wedi hynny.

135 Mae'n rhaid i gynghorau cymuned gael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru cyn cael benthyciad. Ni allaf weld unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi gofyn neu wedi cael cymeradwyaeth am y benthyciad y cyfeirir ato gan Mr Owen. Felly, rwy'n ystyried bod y Cyngor wedi gweithredu'n anghyfreithlon wrth fenthyca arian gan yr Ymddiriedolaeth i ariannu gwaith adnewyddu Neuadd Les Craig-cefn-parc wrth aros am arian grant. Arweiniodd hyn at eitem yn y cyfrif sy'n groes i'r gyfraith.

136 Yn ei ymateb i fersiwn ddrafft o'r ddogfen hon, mae Mr Owen yn nodi nad oedd yn ymwybodol o'r gofyniad i gael cymeradwyaeth i fenthyciad. Mae hefyd yn nodi na chafwyd cymeradwyaeth ar gyfer benthyciad cynharach gan Ddinas a Sir Abertawe mewn perthynas â gwaith a wnaed yn Neuadd Garn-swllt. Dywed Mr Owen na wnaeth cyfreithwyr y Cyngor na chyfreithwyr y Cyngor Sir grybwyll y gofyniad ar y pryd. Dylid nodi nad yw diffyg dealltwriaeth neu wybodaeth am y fframwaith statudol yn lleihau effaith camau gweithredu anghyfreithlon y Cyngor.

137 Ymhellach, nid wyf wedi gallu nodi unrhyw ddogfennau sy'n dangos unrhyw gytundeb benthyciad ffurfiol rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth. Yn hytrach, mae'r trefniant hwn i'w weld yn drefniant ad hoc ac anffurfiol.

138 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y trefniant hwn yn annerbyniol ond mae'n nodi bod y trefniadau wedi'u gwneud heb i'r Cyngor cyfan wybod amdanynt. Mae'n datgan bod cyfran sylweddol o'r benthyciad wedi'i ad-dalu bellach ac na fydd y math hwn o drefniant yn digwydd yn y dyfodol.

## Argymhellion

139 Mae fy argymhellion i'r Cyngor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor adolygu'r argymhellion a wnes yn fy adroddiad yn 2011 a sicrhau ei fod wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r holl faterion a nodais yn yr adroddiad hwnnw. |
| A2 | Mae'n rhaid i gynghorwyr unigol sicrhau eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau fel cynghorwyr. |
| A3 | Mae'n rhaid i gynghorwyr unigol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â phenderfyniadau a wnaed gan y Cyngor cyfan. |
| A4 | Mae'n rhaid i gynghorwyr unigol sicrhau eu bod yn datgan eu buddiannau ym mhob mater a drafodir ac a benderfynir gan y Cyngor. |
| A5 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i Reolau Sefydlog wrth wneud penderfyniadau. |
| A6 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymdrin â phob adroddiad archwilio mewn modd priodol, gan gydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol. |
| A7 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cofnodion ei gyfarfodydd yn cydymffurfio â gofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn darparu cofnod clir o'r busnes a gyflawnwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn ei gyfarfodydd. |
| A8 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn pennu ei gyllideb flynyddol a'i braesept yn unol â Deddf 1992. |
| A9 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw brosiectau a gyflawnir ar y cyd â thrydydd parti yn destun cytundebau ffurfiol a fydd yn nodi rolau a chyfrifoldebau pob parti a sut bydd y prosiect yn cael ei ariannu. |
| A10 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod pob cais am arian grant yn cael ei awdurdodi'n briodol. |

| | |
|---|---|
| A11 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gyfrifol am awdurdodi'r defnydd o gynghorwyr proffesiynol. |
| A12 | Mae'n rhaid i Glerc y Cyngor sicrhau bod pob taliad yn cael ei adrodd yn gywir i'r Cyngor a'i gofnodi'n briodol yn y llyfr cofnodion ac arian. |
| A13 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau a hysbysu'r Cyngor llawn am y canlyniadau. |
| A14 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael cymeradwyaeth fenthyca ar gyfer pob benthyciad y bydd yn ei dynnu i lawr o bob ffynhonnell. |

## Camau a gymerwyd eisoes gan y Cyngor

140 Er mwyn gwasanaethu pobl ardal Mawr yn effeithiol, mae'n bwysig bod y Cyngor yn dysgu o'r digwyddiadau hyn ac yn cyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i'w weithdrefnau a'i ddulliau rheoli i leihau'r risg o ddigwyddiadau pellach.

141 Mae'r Cyngor wedi dweud wrthyf ei fod wedi cymryd, neu'n bwriadu cymryd, camau i fynd i'r afael â llawer o'r argymhellion uchod a'r argymhellion sy'n dal heb eu gweithredu o adroddiad 2011, yn cynnwys:

- a adolygu contractau cyflogaeth y Clerc a holl ofalwyr y neuaddau;
- b dim ond awdurdodi taliadau pan fydd y Cyngor yn derbyn anfoneb briodol;
- c datblygu adroddiadau monitro ariannol newydd i'w cyflwyno i'r Cyngor bob mis a chwarter;
- ch gwahanu rôl/dyletswyddau'r archwilydd mewnol oddi wrth y rhai sy'n cael eu cyflawni'n briodol gan y Clerc;
- d adolygu Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor i sicrhau eu bod yn ateb y diben;
- dd sicrhau bod cofnodion yn cael eu cofnodi'n gywir a'u bod yn destun craffu priodol cyn i'r Cyngor eu cymeradwyo a'r Cadeirydd eu llofnodi;
- e nodi anghenion hyfforddiant cynghorwyr unigol a'r Clerc;
- f sicrhau bod y gyllideb ar gyfer 2015-16 yn cael ei phennu yn unol â Deddf 1992; a
- ff sicrhau bod partneriaethau'n cael eu sefydlu gyda briff clir a rolau wedi'u diffinio ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid yn y dyfodol.

## Y camau nesaf

142 Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn.

143 Cyn y cyfarfod, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy'n gwasanaethu ardal Mawr, yn datgan amser a lleoliad y cyfarfod, bod y cyfarfod yn cael ei gynnal i ystyried adroddiad archwilydd gan ddisgrifio pwnc yr adroddiad.

144 Yn y cyfarfod, bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu:

a pa un a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;

b pa un a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad; a

c pha gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

145 Yna, bydd angen i'r Cyngor baratoi crynodeb ysgrifenedig o'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod a chael fy nghymeradwyaeth i'r crynodeb hwn, a sicrhau bod hysbysiad yn cynnwys y crynodeb cymeradwyedig yn cael ei gyhoeddi mewn papur newydd sy'n gwasanaethu'r ardal.



Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig

15 Ionawr 2015

# Atodiadau

Atodiad 1 - Saith egwyddor bywyd cyhoeddus (‘egwyddorion Nolan’)
Atodiad 2 - Argymhellion fy adroddiad yn 2011
Atodiad 3 - Crynodeb o gofnodion ynghylch Llwybr Coetir Ysgol Felindre

# Atodiad 1 - Saith egwyddor bywyd cyhoeddus ('egwyddorion Nolan')

## Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig.

## Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu neu wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu elw a mewn rhyw ffordd arall. Mae'n rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a chysylltiadau.

## Gwrthrychedd

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu neu ragfarn.

## Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt fod yn barod i gydymffurfio ag unrhyw graffu angenrheidiol i sicrhau hyn.

## Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid celu gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai fod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

## Gonestrwydd

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ddweud y gwir.

## Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylent hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn i'r carn a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pan geir achosion o hynny.

# Atodiad 2 - Argymhellion fy adroddiad yn 2011

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd gan y Cyngor | Camau sydd eu hangen nawr |
|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor adolygu natur ac ansawdd y cofnodion cyfrifyddu a sicrhau eu bod yn addas at y diben a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn gyflawn. | Mae cofnodion cyfrifyddu'r Cyngor wedi gwella ac mae ganddo ddogfennau ategol priodol ar gyfer y taliadau a wnaed. | Heb nodi unrhyw gamau. |
| A2 | Rhaid i'r Cyngor roi'r gorau i'r trefniadau presennol lle mae'r Clerc yn talu cyflog gofalwyr o'i arian ei hun ac yn adennill y swm priodol gan y Cyngor. | Mae'r Cyngor yn talu pob aelod o staff gyda siec o gyfrif cyfredol y Cyngor bellach. | Heb nodi unrhyw gamau. |
| A3 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer talu'r gyflogres, gan sicrhau bod pob taliad yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor a bod llwybr archwilio llawn ar gyfer pob taliad cyflog. | Mabwysiadwyd trefniadau priodol wrth benodi'r Clerc cyfredol. | Heb nodi unrhyw gamau. |
| A4 | Dylai'r Cyngor gadarnhau telerau ac amodau cyflogaeth pob aelod o staff gan gynnwys lefelau cyflog unigolion a dyddiadau pan gaiff cyflogau eu talu. | Hyd yn hyn, nid yw'r Cyngor wedi paratoi contractau cyflogaeth ysgrifenedig i'w weithwyr. | Dylid paratoi contractau cyflogaeth ysgrifenedig cyn gynted â phosibl. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod pob taliad cyflog gan gynnwys taliadau TWE i Gyllid a Thollau EM yn cael ei dalu'n rheolaidd ac na wneir unrhyw daliadau cyn bod gan gyflogeion yr hawl i'r taliad hwnnw. | Mae'r Clerc cyfredol yn gwneud taliadau rheolaidd i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. | Heb nodi unrhyw gamau. |
| A6 | Dylai'r Cyngor sicrhau mai dim ond pan fydd anfoneb wedi'i derbyn ac y bydd y taliad wedi'i awdurdodi gan y Cyngor y caiff sieciau neu archebion talu eraill eu codi. | Rwy'n deall bod sieciau'n cael eu cyflwyno i'w llofnodi gyda'r anfonebau perthnasol erbyn hyn fel rheol.<br><br>Fodd bynnag, roedd cofnodion y Cyngor ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2012 yn nodi pryderon cynghorwyr unigol bod rhai cynghorwyr e.e. y Cyng Williams, yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo taliadau ac ysgrifennu sieciau heb fod anfoneb wedi'i chyflwyno i'r Cyngor.<br><br>Cafodd taliad ar gyfer yr eitemau hyn ei ddal yn ôl tan i'r anfonebau gwreiddiol gael eu derbyn. | Mae'n rhaid i'r Cyngor a chynghorwyr unigol sicrhau bod dogfennaeth ategol briodol, e.e. anfonebau, ar gael a bod gwaith wedi'i gwblhau i safon briodol cyn gwneud taliadau. |
| A7 | Dylai'r Cyngor adolygu'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r Cyngor am daliadau i'w cymeradwyo a sicrhau y rhoddir gwybod iddo am bob taliad a wneir. | Wrth archwilio'r cofnodion gwelir bod taliadau'n cael eu cymeradwyo gan y Cyngor bellach. | Heb nodi unrhyw gamau. |

| Argymhelliad | | Camau a gymerwyd gan y Cyngor | Camau sydd eu hangen nawr |
|---|---|---|---|
| A8 | Dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael adroddiadau am wybodaeth ariannol fanwl yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor yn rheolaidd. | Nid yw'r Cyngor yn derbyn adroddiadau ar berfformiad ariannol y Cyngor yn erbyn ei gyllideb flynyddol. Mae'r wybodaeth ariannol a dderbyniwyd yn cynnwys dim mwy na manylion y taliadau a wnaed. | Dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i dderbyn adroddiad cryno o'i sefyllfa ariannol yn rheolaidd. |
| A9 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion adran 150(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod pob siec yn cael ei llofnodi gan o leiaf ddau aelod. | Mae taliadau ers mis Ebrill 2012 yn cael eu llofnodi gan ddau aelod. | Heb nodi unrhyw gamau. |
| A10 | Rhaid i aelodau sicrhau na fyddant yn llofnodi sieciau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn ac wedi'u hategu gan dderbynebau neu anfonebau priodol. | Gweler A6. | Gweler A6. |
| A11 | Rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith ar gyfer gwaith archwilio mewnol annibynnol, effeithiol er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru). | Mae'r archwilydd mewnol yn parhau i fod yn gyfrifol am gwblhau ffurflenni TAW y Cyngor. | Dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwaith archwilio mewnol yn annibynnol ar drefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn cynnwys paratoi ffurflenni TAW. |
| A12 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol i gadw cofnodion o'i drafodion. | Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i gadeirydd y cyfarfod lle cymeradwywyd y cofnodion nodi llythrennau cyntaf ei enw ar bob tudalen o'r cofnodion.<br>Codwyd y mater hwn hefyd fel pryder gan y Cyng Lewis ym mis Tachwedd 2012 (cofnod 118/2012).<br>Er bod y cofnodion a ddarparwyd i mi wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y cadeirydd ar flaen pob set o gofnodion, nid yw llythrennau cyntaf enw'r cadeirydd ar bob tudalen. | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol i gynnal cofnodion priodol o'i gyfarfodydd. |
| A13 | Dylai'r Cyngor adolygu'r trefniadau ar gyfer adennill TAW ar y tanwydd a ddefnyddir gan bwyllgorau'r neuaddau a sicrhau bod y trefniadau hyn wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Gyllid a Thollau EM. | Nid yw'r Cyngor wedi cael cadarnhad gan Gyllid a Thollau EM bod y trefniadau ar gyfer adennill TAW ar wariant ar neuaddau pentref yn briodol. | Dylai'r Cyngor gael cadarnhad gan Gyllid a Thollau EM bod y trefniadau ar gyfer adennill TAW ar wariant ar neuaddau pentref yn briodol. |

# Atodiad 3 - Crynodeb o gofnodion ynghylch Llwybr Coetir Ysgol Felindre

| Dyddiad | Crynodeb o'r drafodaeth |
|---|---|
| 6 Rhagfyr 2011 | Dywedodd y Cyng Dorian Williams wrth y Cyngor bod pennaeth yr ysgol wedi gofyn i'r Ymddiriedolaeth am grant er mwyn prynu tir rhwng yr ysgol a'r Neuadd Les. Dywedodd y Cyng Williams y byddai stepiau'n cael eu creu ar y llwybr ac y byddai'n cael ei wneud yn ddiogel ar gyfer cerdded. Mae'r cofnodion yn nodi y byddai'r tir yn eiddo i'r cyngor cymuned ar ôl cael ei brynu. Maent yn nodi bod cynghorydd wedi cynnig y dylai'r Cyngor fwrw ymlaen â'r berchnogaeth. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn. |
| 21 Mawrth 2012 | Gofynnodd y Cyng Dorian Williams a fyddai'r Cyngor yn rhoi caniatâd i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio'r llwybr troed newydd o'r neuadd i'r ysgol. Penderfynodd y Cyngor y byddai'r cyhoedd yn cael defnyddio'r llwybr. |
| 9 Mai 2012 | Mewn perthynas â thrafodaeth am barcio ceir ger Ysgol Felindre, dywedodd y Cyng Williams mai lliniaru'r broblem hon oedd y rheswm i'r Ymddiriedolaeth Ddatblygu brynu'r tir y tu ôl i'r ysgol i greu llwybr troed fel y gall y rhai sy'n dod i'r ysgol barcio ym maes parcio Neuadd Les Felindre. Bydd perchnogaeth y tir yn cael ei throsglwyddo i'r cyngor cymuned yn y pen draw. |
| 30 Mai 2012 | Yn ystod y cyfarfod hwn, bu Mr Owen yn annerch y Cyngor a dywedodd fod y rhan o'r coetir o Ysgol Felindre i'r Neuadd Les wedi'i brynu gan alluogi'r Ymddiriedolaeth i greu llwybr i gysylltu'r ddau le. |
| 4 Tachwedd 2012 | Eglurodd y Cyng Williams bod angen ysgrifennu sieciau ar frys i'r Ymddiriedolaeth Ddatblygu…. siec o £1,000 i dalu cost blaendal a roddwyd i brynu'r ardal coetir yn Felindre. |
| 15 Chwefror 2013 | Mewn cyfarfod ymgynghori cyhoeddus ynghylch datblygu tir yng Nghraig-cefn-parc, codwyd cwestiynau ynghylch prynu tir yn Felindre ar gyfer llwybr y coetir ac atebodd Mr Owen drwy ddweud bod rhan o'r tir wedi'i roi fel rhodd a rhan arall wedi'i brynu drwy grant felly nid oedd costau i'r Cyngor o gwbl. |
| 15 Mai 2013 | Bu'r contractwr, Mr Jones, yn annerch y Cyngor ynghylch y gwaith a wnaeth gan ddweud mai gyda'r Cyng Williams oedd ei gytundeb ef ac nid y Cyngor.<br>Dywedodd Mr Owen y byddai'n rhaid i'r cyngor wirio'r cofnodion i gadarnhau a wnaeth y cyngor gytuno i'r gwaith hwn. Dywedodd Mr Owen hefyd mai arian grant oedd yr arian a dalwyd i gyfrif banc y Cyngor ac ni fyddai unrhyw gostau i'r Cyngor. |

| Dyddiad | Crynodeb o’r drafodaeth |
|---|---|
| 22 Mai 2013 | Bu’r cyfarfod hwn yn ystyried talu’r costau oedd yn gysylltiedig â llwybr y coetir. Mae’r cofnodion yn nodi:<br><br>Dywedodd Mr Owen, yn cynrychioli Ymddiriedolaeth Datblygu Mawr [yr Ymddiriedolaeth] fod Cyngor Cymuned Mawr [y Cyngor] wedi cytuno i gynnal y prosiect ar y cyd a chynorthwyodd Cyngor Cymuned Mawr i wneud cais am arian grant y darparodd Cyngor Cymuned Mawr arian cyfatebol ar ei gyfer.<br><br>Nododd y Cadeirydd nad oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o’r prosiect a gofynnodd i Mr Owen ddangos tystiolaeth bod y Cyngor wedi cytuno i’r prosiect.<br><br>Cadarnhaodd Mr Owen y byddai’n darparu’r holl ddyfynbrisiau a chopïau o geisiadau am grantiau ac nad oedd wedi bwriadu peri embaras i’r cyngor drwy gyflwyno’r siec. Dim ond ei gwneud yn bosibl i dalu Mr Jones oedd y bwriad. Y siec y cyfeirir ati yw siec gan yr Ymddiriedolaeth fel ei chyfraniad at y prosiect. |
| 19 Mehefin 2013 | Yn ystod y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd nad yw Cyngor Cymuned Mawr wedi gweld y cais am grant ar gyfer llwybr coetir Felindre ac felly nid yw wedi’i gymeradwyo….<br><br>Dywedodd Mr Jones ei fod wedi cael awdurdod ysgrifenedig i gyflawni’r gwaith gan y Cyng Williams…<br><br>Mynegodd y Cyng Frame bryder am waith ychwanegol a wnaed gan Mr Jones oedd yn costio £1600 y cytunodd y Cyng Williams iddo ond na chytunwyd arno gan Gyngor Cymuned Mawr. Dywedodd y Cyng Harris nad oedd cytundeb i gyflawni gwaith wedi mynd trwy’r cyngor i’w awdurdodi…. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk